

2017 Rhif (Cy. 9)

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau Gwasanaethau
Meddygol Sylfaenol (Cartrefi
Gofal) (Gwasanaethau Ychwanegol
o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2017

Gwnaed 11 Ebrill 2017

Yn dod i rym 12 Ebrill 2017

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 45, 203(9) a 10 a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cartrefi Gofal) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 12 Ebrill 2017.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

mae i “adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau” (“*discharge medicines review*”) yr un ystyr ag yng nghyfarwyddyd 5 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) 2005, neu adolygiad cyfatebol a gynhelir gan y contractwr GMS;

ystyr “amlgyffuriaeth” (*“polypharmacy”*) yw rhagnodi dwy neu ragor o feddyginiaethau yn amhriodol, neu pan na chyflawnir budd bwriadedig y feddyginiaeth;

ystyr “blwyddyn ariannol” (*“financial year”*) yw’r cyfnod o 1 Ebrill i 31 Mawrth;

mae i “cartref gofal” yr un ystyr â “care home” fel y’i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(1);

mae i “claf cofrestredig” yr un ystyr â “registered patient” yn Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(2);

ystyr “contract gwasanaethau meddygol cyffredinol” (*“general medical services contract”*) yw contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol rhwng contractwr GMS a Bwrdd Iechyd Lleol a wneir yn unol ag adran 42 o’r Ddeddf;

ystyr “contractwr GMS” (*“GMS contractor”*) yw person y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo neu wedi ymrwymo i gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol ag ef;

ystyr “Datganiad ar Hawlogaeth Ariannol” (*“Statement of Financial Entitlement”*) yw unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 45 o’r Ddeddf;

ystyr “y Ddeddf” (*“the Act”*) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “gweithiwr gofal iechyd proffesiynol” (*“healthcare professional”*) yw person sy’n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(3);

ystyr “meddyg teulu” (*“general practitioner”*) yw ymarferydd meddygol y mae ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 3 o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004(4);

ystyr “Nodiadau Cleifion Arbennig” (*“Special Patient Notes”*) yw gwybodaeth a ddarperir gan feddyg teulu am ei gleifion cofrestredig sydd ag anghenion cymhleth o ran iechyd a gofal cymdeithasol a all gael ei chyfleu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, gan gynnwys meddygon a nyrsys sy’n darparu gwasanaeth y tu allan i oriau; ac

(1) 2000 p. 14.
(2) O.S. 2004/478 fel y’i diwygiwyd.
(3) 2002 p. 17.
(4) O.S. 2004/1020 (Cy. 117).

ystyr “nyrs” (“*nurse*”) yw nyrs sydd wedi ei chofrestru yn y gofrestr o nyrsys a sefydlwyd o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(1).

Sefydlu Cynllun Gwasanaethau Ychwanegol Cartrefi Gofal

3. Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol arfer ei swyddogaethau o dan adran 41 o'r Ddeddf (gwasanaethau meddygol sylfaenol) er mwyn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ei ardal, neu sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu yn ei ardal. Fel rhan o'i waith o gyflawni'r swyddogaethau hynny, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu (os nad yw eisoes wedi gwneud hynny), gweithredu ac, fel y bo'n briodol, ddiwygio Cynllun Cartrefi Gofal ar gyfer ei ardal, a chanddo'r diben sylfaenol o sicrhau bod contractwyr GMS yn bwrw ati mewn ffordd ragweithiol i ofalu am bobl sydd wedi eu cofrestru â'u practis ac sy'n byw mewn cartref gofal ar hyn o bryd.

Cynllun Cartrefi Gofal

4. Fel rhan o'i Gynllun Cartrefi Gofal, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gynnig ymrwymo i drefniadau ag unrhyw gontractwr GMS, ond pan fo'n gwneud hynny, rhaid i'r cynllun sy'n nodi'r trefniadau y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo iddynt â'r contractwr GMS, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn ymwneud â hi, gynnwys—

- (a) gofyniad bod y contractwr GMS yn—
 - (i) argymhell bod preswilydd yn cael adolygiad cychwynnol cynhwysfawr o'i iechyd meddwl a chorfforol o fewn 28 o ddiwrnodau i'r preswilydd symud i mewn i'r cartref gofal neu gael ei dderbyn iddo;
 - (ii) sicrhau bod yr adolygiad yn cynnwys adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau, a chanddo'r diben o wirio'r meddyginiaethau a ragnodir yn dilyn rhyddhau, a sicrhau bod newidiadau priodol yn cael eu gwneud i'r cofnod o feddyginiaethau rhagnodedig sydd wedi ei gynnal gan y contractwr GMS. Rhaid i'r adolygiad gynnwys, ond peidio â bod yn gyfyngedig i, amlgyffuriaeth, rhagnodi gwrthseicotigau a meddyginiaethau risg uchel eraill;
 - (iii) sicrhau bod yr adolygiad yn cynnwys y meysydd a amlinellir yn y profforma yn Atodiad B o'r Fanyleb ar gyfer y

(1) O.S. 2002/253.

Gwasanaeth Ychwanegol Cartrefi
Gofal(1);

- (iv) sicrhau bod canfyddiadau'r asesiad yn cael eu cofnodi ar y profforma yn Atodiad B gan gynnwys y Cynllun Gofal Diwedd Oes (pan fo'n briodol ar gyfer y claf) yn Atodiad D o'r Fanyleb ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol Cartrefi Gofal, a bod y profforma yn cael ei gadw gan y cartref gofal; a
- (v) argymhell unrhyw atgyfeiriad priodol yn ôl yr angen.
- (b) gofyniad bod y contractwr GMS yn sicrhau bod adolygiadau yn cael eu cynnal fel y bo'n briodol yn glinigol ond bod rhaid cynnal isafswm o un adolygiad clinigol bob blwyddyn ariannol ar gyfer preswlydd sy'n preswyllo yn y cartref gofal am y flwyddyn gyfan. Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cefnogi'r meddyg teulu i gynnal yr adolygiadau pan fo'n briodol. Pan fo fferylllydd wedi cynnal adolygiad o feddyginiaeth, gan gyfeirio'n benodol at amlgyffuriaeth, rhagnodi gwrthseicotigau a meddyginiaethau risg uchel eraill, sydd i gael eu cofnodi yn nodiadau'r claf, bydd y contractwr GMS yn ystyried hyn yn yr adolygiadau clinigol. I'r preswylwyr hynny nad ydynt yn preswyllo yn y cartref gofal am flwyddyn ariannol gyfan, bydd angen i contractwyr GMS benderfynu faint o adolygiadau clinigol a fydd yn cael eu cynnal, fel y bo'n briodol yn glinigol;
- (c) gofyniad bod y contractwr GMS, fel y clinigydd arweiniol yn y tîm amlddisgyblaethol, yn comisiynu adolygiad o feddyginiaeth i gael ei gynnal gan fferylllydd fel y bo'n briodol;
- (d) gofyniad bod y contractwr GMS—
 - (i) yn cynnal adolygiad ar ôl gofal heb ei drefnu o fewn 4 wythnos i gael adroddiad rhyddhau'r claf yn sgil ei bresenoldeb yn yr adran achosion brys neu'n dilyn derbyniad brys i'r ysbyty;
 - (ii) fel rhan o'r adolygiad yn nodi pe gallai gofal heb ei drefnu fod wedi cael ei osgoi ac os felly, yn cofnodi pa gamau a ddylai gael eu cymryd i leihau'r posibilrwydd o

(1) Gellir cael mynediad i'r Fanyleb ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol Cartrefi Gofal ar wefan y contract GMS yn <http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=480&pid=6064>

ofal pellach heb ei drefnu yng nghofnod meddygol y claf; ac

- (iii) yn cynnal yr adolygiad ar ôl gofal heb ei drefnu naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn fel y bo'n briodol ac y penderfynir arno gan y meddyg teulu ar ôl iddo gael adroddiad rhyddhau'r claf;
- (e) gofyniad bod y contractwr GMS yn sicrhau bod adolygiad iechyd blynyddol cynhwysfawr yn cael ei gynnal o fewn 4 wythnos i ben blwydd y diwrnod pan symudodd y preswlydd i mewn i'r cartref gofal neu gael ei dderbyn iddo;
- (f) gofyniad bod y contractwr GMS yn—
 - (i) cwblhau Nodiadau Cleifion Arbennig ynghylch preswylwyr hyglwyf a phreswylwyr gofal lliniarol y mae rhaid iddynt gynnwys gofal diwedd oes priodol a hysbysiad 'Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol'; a
 - (ii) darparu copi o'r Nodiadau Cleifion Arbennig i'r Gwasanaeth y Tu Allan i Orlau ac i'r cartref gofal;
- (g) gofyniad bod naill ai'r contractwr GMS, y practis arweiniol sy'n gweithredu ar ran y clwstwr meddygon teulu neu ddarparwr gwasanaeth arall yn cwblhau adroddiad blynyddol o ganlyniadau erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn yn unol â'r profforma yn Atodiad C i'r Fanyleb ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol Cartrefi Gofal;
- (h) gofyniad y bydd y contractwr GMS, y practis arweiniol sy'n gweithredu ar ran grŵp/clwstwr o bractisau meddygon teulu neu'r meddyg teulu sy'n gweithredu fel arweinydd ar gyfer y model cyflenwi gwasanaeth yn sicrhau bod gan unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â gweinyddu'r Cynllun Cartrefi Gofal unrhyw brofiad, sgiliau, goruchwyliaeth a hyfforddiant sy'n angenrheidiol o ran gweinyddu'r cynllun;
- (i) trefniadau ar gyfer monitro'r gofal a ddarperir o dan y cynllun gan gynnwys dyddiad ar gyfer adolygu'r cynllun ac adolygiad o hyd y cynllun;
- (j) y trefniadau talu ar gyfer y contractwr GMS y mae rhaid iddynt ddarparu—
 - (i) ar gyfer y cleifion hynny sydd wedi eu cofrestru â'r contractwr GMS sy'n darparu'r gwasanaeth neu gontractwr GMS sy'n ffurfio rhan o grŵp neu glwstwr y mae'r cleifion yn cael y gwasanaeth oddi wrtho, y bydd y

contractwr GMS arweiniol sy'n darparu'r gwasanaeth yn gwneud yr hawliad am daliad;

- (ii) pan fo'r contractwr GMS a'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cytuno ar drefniadau fel y'u hamlinellir ym mharagraffau (a) i (j) a bod y contractwr GMS yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y cynllun, y bydd y contractwr GMS yn gallu hawlio (ar ôl i'r Bwrdd Iechyd Lleol wirio hynny) daliad o £270 fesul claf cofrestredig mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol;
- (iii) pan fo marwolaeth preswlydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn, fod y practis yn gallu hawlio'r taliad llawn am y flwyddyn honno cyhyd â bod yr Adolygiad Preswlydd Cychwynnol wedi cael ei gwblhau;
- (iv) os yw preswlydd yn preswlio mewn cartref gofal am hyd at 6 mis o'r flwyddyn ariannol berthnasol y bydd y practis yn gallu hawlio 50% (£135) o'r taliad blynyddol;
- (v) os yw preswlydd yn preswlio mewn cartref gofal am hyd at 9 mis o'r flwyddyn ariannol berthnasol y bydd y practis yn gallu hawlio 75% (£202.50) o'r taliad blynyddol;
- (vi) os yw preswlydd yn preswlio mewn cartref gofal am dros 9 mis o'r flwyddyn ariannol berthnasol y bydd y practis yn gallu hawlio 100% o'r taliad blynyddol;
- (vii) na fydd unrhyw bractis yn gallu cael mwy na'r taliad blynyddol o £270 mewn unrhyw flwyddyn ariannol. Gall fod angen ymgymryd â chyfnod o gysoni ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- (viii) y bydd taliadau o'r fath yn ôl-daladwy naill ai bob mis neu bob chwarter ac y byddant yn daladwy ar y dyddiad cyntaf ar ôl i'r taliad gael ei awdurdodi y mae un o daliadau misol Swm Cyffredinol y contractwr GMS yn dod yn ddyledus yn unol â'r Datganiad ar Hawlogaeth Ariannol;
- (ix) bod rhaid i'r hawliad am daliad ddod gyda rhestr o breswylwyr sy'n preswlio yn y cartref gofal ar y diwrnod olaf y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef; a
- (x) na fydd y contractwr GMS yn cael tâl cadw oddi wrth gartref gofal os yw'n penderfynu cymryd rhan yn y Cynllun Cartrefi Gofal. Bydd cwblhau a llofnodi

ffurflen ddatgan y practis o fewn y Fanyleb ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol Cartrefi Gofal yn cadarnhau'r cytundeb hwn.


- (k) gofyniad yr ymdrinnir ag unrhyw anghydfodau sy'n codi yn y ffordd ragnodedig. Dylai Byrddau Iechyd Lleol a chontractwyr GMS wneud pob ymdrech i ddatrys yr anghydfod yn lleol cyn ei gyflwyno'n ffurfiol drwy weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG.

5. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, pan fo'n angenrheidiol, amrywio contract gwasanaethau meddygol cyffredinol y contractwr GMS fel bod y cynllun yn rhan o gontract y contractwr GMS a bod gofynion y cynllun yn amodau o'r contract.

Diwygio Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2009

6. Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2009 a ddaeth i rym ar 22 Mai 2009 wedi eu diwygio fel a ganlyn:

- (a) yng nghyfarwyddyd 2, hepgorer y diffiniad o "care home";
- (b) yng nghyfarwyddyd 3(2), hepgorer paragraff (d); ac
- (c) hepgorer cyfarwyddyd 7.



Llofnodwyd gan y Dr Grant L. Duncan, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 11 Ebrill 2017